OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1512 (Cy.148)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*13 Mehefin 2006*
Yn dod i rym	- -	*14 Mehefin 2006*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei ddynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau ym meysydd milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Yr enw ar y Rheoliadau hyn fydd Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i anifeiliaid a gedwir ar gyfer pwrpasau ymchwil mewn mangreoedd a gymeradwyir ar gyfer y pwrpas hynny o dan reoliadau Eneffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006(**3**).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "anifail buchol" ("bovine animal") yw gwartheg yn cynnwys buail a byfflo (gan gynnwys byfflo dŵr);

ystyr "BSE" ("BSE") yw enseffalopathi sbyngffurf buchol;

mae gan "pasbort gwartheg" ("cattle passport") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(**4**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2003/1246.
(**3**) O.S. 2006/1226.
(**4**) O.S. 1998/871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2969 ac O.S. 1999/1339.

Iawndal am anifeiliaid buchol sy'n cael eu cigydda oherwydd TSE

3. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu iawndal–

(a) pan fo anifail yn cael ei ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006;

(b) pan fo anifail i'w ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, a bod yr anifail wedi ei brisio ar gyfer pwrpasau iawndal, ond fod yr anifail yn marw (neu yn cael ei ladd am resymau eraill) wedi prisio; neu

(c) lle bo anifail yn ddarostyngedig i gyfyngiad symud o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 a bod yn rhaid ei ladd fel mater o frys, a bod milfeddyg wedi datgan yn ysgrifenedig y byddai'r anifail fel arall wedi bod yn addas i'w fwyta gan bobl yn unol â Phennod VI o Adran I o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**5**), ac os felly yr iawndal yw gwerth y corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen).

Swm yr iawndal sy'n daladwy

4.—(1) Yr iawndal yw'r pris cyfartalog a delir ym Mhrydain fawr am anifail o'r oed a'r categori hwnnw o anifail–

(a) yn y chwe mis blaenorol yn achos anifail pedigri; ac

(b) yn achos unrhyw anifail buchol eraill, yn y mis blaenorol

(2) Anifail pedigri yw anifail sydd wedi cael tystysgrif pedigri gan sefydliad neu gymdeithas bridwyr sy'n cyflawni amodau Penderfyniad y Cyngor 84/247/EEC sy'n gosod y meini prawf ar gyfer cydnabod sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n cadw llyfrau buches ar gyfer anifeiliaid bridio pur o'r rhywogaeth buchol(**6**).

(3) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gategoreiddio anifeiliaid fel a ganlyn, ac at bwrpas penderfynu ynglŷn â pha gategori i roi'r anifail, oed yr anifail yw'r oed, fel y dangosir gan ei basport gwartheg, ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o'r bwriad i'w ladd.

Categorïau

Gwryw	*Menyw*
Sector Eidion—anifail sydd ddim yn bedigri	
Hyd at ac yn cynnwys 3 mis	Hyd at ac yn cynnwys 3 mis
Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis	Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis
Dros 6 mis hyd at ac yn cynnnwys 9 mis	Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 9 mis
Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis	Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis
Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis	Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis
Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis	Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis
Dros 20 mis–	Dros 20 mis–
Teirw bridio	Wedi bwrw llo
Arall	Heb fwrw llo

(**5**) OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22.
(**6**) OJ Rhif L125, 12.05.1984, t.58.